GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Bloc Bier

# Taflen Wybodaeth i Gleifion

## BETH YW BLOC BIER?

Dyma driniaeth sy'n ymwneud ag anesthetig lleol a roddir fel arfer i gleifion sydd angen trin garddwn sydd wedi torri.

## A YW'N DDIOGEL?

Mae'r driniaeth hon yn ddiogel iawn. Bach iawn yw'r risg y bydd cymhlethdodau'n codi.

## BETH FYDD YN DIGWYDD?

Byddwch yn effro yn ystod y driniaeth ac yn gallu siarad â'r meddyg a'r nyrs.

Mae canwla bach yn cael ei osod yng nghefn eich dwy law. Mae band fel yr un a ddefnyddir i fesur pwysedd gwaed yn cael ei roi o amgylch rhan uchaf y fraich sydd wedi'i hanafu a chaiff gwynt ei bwmpio i mewn iddo. Byddwch yn teimlo'r band yn tynhau o amgylch eich braich.

Yna caiff anesthetig lleol ei chwistrellu i'r canwla sydd ar y fraich sydd wedi'i hanafu. Byddwch yn teimlo pinnau bach yn y fraich, ac efallai y bydd yn newid lliw. Ar ôl 5 munud bydd yr anesthetig wedi gweithio, a bydd y clinigwr yn gallu symud y toriad i safle gwell. Efallai y byddwch chi'n teimlo rhywfaint o symudiad yn ystod y cam hwn. Mae'n anghyffredin teimlo unrhyw boen, ond os y byddwch yn teimlo poen, bydd y clinigwr yn gallu darparu rhywfaint o feddyginiaeth ychwanegol i'ch helpu.

Ar ôl i'r plastr gael ei roi ymlaen, byddwn yn cymryd llun pelydr-x o'ch braich eto, os yw lleoliad yr esgyrn yn dderbyniol, byddwn yn tynnu'r aer o'r band. Weithiau mae angen trin y fraich ymhellach cyn i'r aer gael ei dynnu o'r band.

## BETH FYDD YN DIGWYDD WEDYN?

Yn ystod cyfnod o 20 munud bydd y teimlad yn y fraich yn dychwelyd i normal. Bydd y canwla yn cael ei dynnu ar ôl y driniaeth.

Efallai y bydd angen i ni ddarparu rhywfaint o feddyginiaeth i chi ar gyfer y boen. Fodd bynnag, unwaith y bydd y fraich mewn plastr, mae meddyginiaethau lladd poen syml y gellir eu cael dros y cownter yn aml yn ddigonol.

Mae'n bwysig eich bod yn cadw'r fraich sydd wedi'i hanafu yn y sling er mwyn lleihau'r chwydd, ac yn dilyn y cyngor a roddir i chi ynglŷn â'r plastr.

Byddwn yn trefnu i chi gael eich gweld yn y clinig torasgwrn, lle bydd arbenigwr Orthopedig yn adolygu eich anaf.

Pan fydd y chwydd wedi mynd i lawr, efallai y bydd eich braich cael ei rhoi mewn plastr llawn. Bydd y plastr
fel arfer yn cael ei gadw ymlaen am tua 4 - 6 wythnos.

Weithiau, er fod yr arddwn yn llonydd mewn plastr, gall y toriad symud, a gall hyn olygu y bydd angen i'r toriad gael ei drin eto. Os oes angen triniaeth bellach, bydd eich arbenigwr Orthopedig yn trafod yr opsiynau gyda chi.

**Os ydych yn pryderu o gwbl am eich anaf, cysylltwch â'r**
**Adran Achosion Brys (ED) /Uned Mân Anafiadau (MIU) perthnasol:**
**Ysbyty Brenhinol Gwent: 01633 234056**
**Ysbyty Neuadd Nevill: 01873 732073**
**Ysbyty Ystrad Fawr (YYF) 01443 802353**
**Ysbyty Anuerin Bevan (YAB) : 01495 363318**
**Ysbyty Athrofaol y Faenor 01633 493287**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English**